This document is also available in English

**CYNNWYS**

**ADRAN 16**


**16. Rheolau Gweithdrefnau Fframwaith Polisi A Chyllideb**

16.1 Y fframwaith ar gyfer penderfyniadau'r Cabinet
16.2 Proses ar gyfer datblygu'r fframwaith a'r gyllideb
16.3 Penderfyniadau sydd y tu hwnt i'r fframwaith polisi neu gyllideb
16.4 Penderfyniadau brys sydd y tu hwnt i'r fframwaith polisi neu gyllideb
16.5 Trosglwyddiadau Arian
16.6 Newidiadau i'r fframwaith polisi yn ystod y flwyddyn
16.7 Galw i mewn penderfyniadau sydd y tu hwnt i'r fframwaith polisi neu gyllideb

## ADRAN 16 - RHEOLAU GWEITHDREFNAU FFRAMWAITH POLISI A CHYLLIDEB

### 16.1 Y fframwaith ar gyfer penderfyniadau'r Cabinet

Bydd y Cyngor yn gyfrifol am fabwysiadu ei fframwaith polisi a chyllideb fel yr amlinellir yn Adran 4. Bydd y fframwaith polisi a chyllideb a fabwysiedir gan y Cyngor yn seiliedig ar yr hyn a gynigir gan y Cabinet. Pan fydd fframwaith polisi neu gyllideb yn ei le, cyfrifoldeb y Cabinet fydd ei roi ar waith.

### 16.2 Proses ar gyfer datblygu'r fframwaith a'r gyllideb

Mae'r broses ar gyfer datblygu'r fframwaith polisi a'r gyllideb fel a ganlyn:

16.2.1 Bydd y Cabinet yn cyhoeddi amserlen, drwy ei chynnwys yn y cynllun i'r dyfodol, ar gyfer gwneud cynigion i'r Cyngor i fabwysiadu unrhyw gynllun, strategaeth neu gyllideb sy'n ffurfio rhan o'r fframwaith polisi a chyllideb, a'i drefniadau ar gyfer ymgynghori. Ni fydd y cyfnod mgynghori yn llai na 3 wythnos.

16.2.2 Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Cabinet yn llunio cynigion pendant gan ystyried unrhyw ymatebion gan gynnwys y rheiny gan bwyllgorau craffu i'r ymgynghoriad hwnnw, a chyflwyno'r cynigion hynny i'r Cyngor.

16.2.3 Wrth ddod i benderfyniad, gall y Cyngor fabwysiadu cynigion y Cabinet, eu diwygio, neu eu cyfeirio'n ôl at y Cabinet i'w hystyried ymhellach, neu roi eu cynigion eu hunain yn eu lle.

16.2.4 Wrth gymeradwyo fframwaith polisi a chyllideb, bydd y Cyngor hefyd yn nodi i ba raddau y gellir trosglwyddo arian o fewn y gyllideb a faint o newidiadau y gallai'r Cabinet eu gwneud i'r fframwaith polisi yn ystod y flwyddyn.

### 16.3 Penderfyniadau sydd y tu hwnt i'r fframwaith polisi neu gyllideb

16.3.1 Yn amodol ar ddarpariaeth paragraff 5 (trosglwyddiadau ariannol), caiff y Cabinet, ac aelod unigol o'r Cabinet ac unrhyw swyddogion, neu drefniadau ar y cyd i weithredu swyddogaethau Gweithredol, lunio penderfyniadau sy'n cydymffurfio â'r fframwaith polisi a chyllideb yn unig. Os bydd unrhyw un o'r cyrff neu bersonau hyn yn dymuno gwneud penderfyniad sy'n groes i'r fframwaith polisi, neu'n groes i neu heb fod yn gwbl unol â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn, yna dim ond y Cyngor all wneud y penderfyniad hwnnw, yn amodol ar 4 isod.

16.3.2 Os bydd y Cabinet, aelod unigol o'r Cabinet ac unrhyw swyddogion, neu drefniadau ar y cyd i weithredu swyddogaethau gweithredol, eisiau gwneud penderfyniad o'r fath, byddan nhw'n gofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Ariannol i weld a fyddai'r penderfyniad yr hoffen nhw ei wneud yn mynd yn groes i'r fframwaith polisi, neu a fyddai'n groes i'r gyllideb, neu ddim yn cydymffurfio â hi'n llawn. Os mai cyngor un o'r swyddogion hynny yw na fyddai'r

penderfyniad yn cydymffurfio â'r gyllideb a / neu'r fframwaith polisi presennol, yna rhaid i'r corff neu'r person hwnnw gyfeirio'r penderfyniad at y Cyngor i wneud penderfyniad yn ei gylch, oni bai bod y penderfyniad yn fater brys ac, os felly, bydd y darpariaethau ym mharagraffau 4 (penderfyniadau brys y tu hwnt i'r fframwaith polisi a chyllideb) yn berthnasol.

**16.4 <u>Penderfyniadau brys sydd y tu hwnt i'r fframwaith polisi neu gyllideb</u>**

16.4.1 Gall y Cabinet, aelod unigol o'r Cabinet, neu drefniadau ar y cyd i weithredu swyddogaethau Gweithredol, wneud penderfyniad sy'n groes i fframwaith polisi'r Cyngor neu'n groes i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn, neu nad yw'n cydymffurfio'n llawn â hi, os yw'r penderfyniad yn fater brys. Serch hynny, gellir dod i benderfyniad dim ond:

i) os nad yw'n ymarferol i gynnull cyfarfod cworwm o'r Cyngor llawn; ac

ii) os bydd Cadeirydd pwyllgor craffu perthnasol yn cytuno bod y penderfyniad yn fater o frys.

16.4.2 Rhaid nodi'r rhesymau pam nad yw'n ymarferol i alw cyfarfod â chworwm o'r Cyngor llawn a nodi cydsyniad Cadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol i wneud y penderfyniad fel mater o frys ar y cofnod o'r penderfyniad. Yn absenoldeb Cadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol, bydd caniatâd Cadeirydd y Cyngor, ac yn absenoldeb y ddau, caniatâd yr Is-gadeirydd yn ddigonol.

16.4.3 Mae gan y Prif Weithredwr bwerau i weithredu mewn amgylchiadau tebyg i'r rheiny a ddisgrifir uchod ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y Rheoliadau Ariannol.

16.4.4. Yn dilyn y penderfyniad, bydd y sawl a gymerodd y penderfyniad yn darparu adroddiad llawn i gyfarfod nesaf y Cyngor yn egluro'r penderfyniad, y rhesymau drosto a pham y cafodd y penderfyniad ei drin fel mater o frys.

**16.5 <u>Trosglwyddiadau Arian</u>**

Mae'r rheolau ar gyfer trosglwyddiadau arian wedi eu hamlinellu yn Rheoliadau Ariannol y Cyngor (sydd wedi'u cynnwys yn Adran 17 y Cyfansoddiad) a dylid cyfeirio atyn nhw.

**16.6 <u>Newidiadau i'r fframwaith polisi yn ystod y flwyddyn</u>**

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gytuno ar y fframwaith polisi a chyllideb, a rhaid i benderfyniadau a wneir gan y Cabinet, aelod unigol o'r Cabinet neu swyddogion, neu drefniadau ar y cyd i weithredu swyddogaethau Gweithredol, gydymffurfio ag ef. Ni all y cyrff neu'r unigolion hynny wneud newidiadau i

unrhyw bolisi na strategaeth sy’n ffurfio rhan o’r fframwaith polisi ac eithrio newidiadau:

(a) a fydd yn arwain at gau neu ddod â gwasanaeth neu ran o wasanaeth i ben er mwyn bodloni cyfyngiad cyllidebol;
(b) sy’n angenrheidiol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â’r gyfraith, cyfarwyddyd gweinidogol neu ganllawiau’r llywodraeth;
(c) mewn perthynas â’r fframwaith polisi sy’n ymwneud â pholisi y byddai’r Cyngor fel arfer yn cytuno arno’n flynyddol, yn dilyn ymgynghoriad, ond lle nad yw’r ddogfen bolisi bresennol yn cyfeirio at y mater dan sylw.

**16.7 <u>Galw i mewn penderfyniadau sydd y tu hwnt i’r fframwaith polisi neu gyllideb</u>**

16.7.1 Os oes pwyllgor craffu o’r farn bod penderfyniad y Cabinet yn groes i’r fframwaith polisi, neu fe fyddai pe bai’n cael ei roi mewn grym, neu os yw’n groes neu ddim yn cydymffurfio’n llwyr â chyllideb y Cyngor, yna bydd yn gofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro a’r Prif Swyddog Ariannol.

16.7.2 Mewn perthynas â swyddogaethau sy’n gyfrifoldeb i’r Cabinet, rhoddir adroddiad y Swyddog Monitro ac adroddiad y Prif Swyddog Ariannol i’r Cabinet gyda chopi i bob aelod o’r Cyngor. Boed y penderfyniad yn cael ei ddirprwyo neu beidio, rhaid i’r Cabinet gwrdd er mwyn penderfynu pa gamau gweithredu i’w cymryd ynghylch adroddiad y Swyddog Monitro ac adroddiad y Prif Swyddog Cyllid a pharatoi adroddiad i’r Cyngor os daw’r Swyddog Monitro neu’r Prif Swyddog Ariannol i’r casgliad bod y penderfyniad wedi gwyro oddi wrth y fframwaith, ac i’r pwyllgor craffu perthnasol os daw’r Swyddog Monitro neu’r Prif Swyddog Ariannol i’r casgliad nad oedd y penderfyniad wedi gwyro oddi wrth y fframwaith.

16.7.3 Os nad oes penderfyniad wedi ei wneud, neu os bydd wedi ei wneud ond heb ei roi ar waith a’r cyngor gan y Swyddog Monitro a / neu’r Prif Swyddog Ariannol yw bod neu byddai’r penderfyniad yn groes i’r fframwaith polisi neu’n groes i’r gyllideb, neu ddim yn cydymffurfio’n llawn â hi, gall y pwyllgor craffu gyfeirio’r mater at y Cyngor. Mewn achosion fel hyn, ni chymerir camau pellach ynghylch y penderfyniad na’i weithredu nes bydd y Cyngor wedi cyfarfod ac ystyried y mater. Bydd y Cyngor yn cyfarfod dim hwyrach na 21 diwrnod ar ôl i’r Pwyllgor Craffu wneud y cais. Yn y cyfarfod, bydd yn derbyn adroddiad am y penderfyniad neu’r cynigion a chyngor y Swyddog Monitro a / neu’r Prif Swyddog Ariannol. Gall y Cyngor naill ai:

(a) gadarnhau bod penderfyniad neu gynnig y sawl sy’n llunio’r penderfyniad yn y Cabinet o fewn y gyllideb bresennol a’r fframwaith polisi. Yn yr achos hwn nid oes angen cymryd camau eraill, ar wahân i gofnodi penderfyniad y Cyngor a’i rannu gyda’r holl gynghorwyr yn y ffordd arferol;

neu

(b) addasu cyllideb neu bolisi'r Cyngor a fydd yn ymwneud â phenderfyniad neu gynnig y corff neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am y swyddogaeth Weithredol a chytuno ar y penderfyniad ar unwaith. Yn yr achos hwn, nid oes angen cymryd camau eraill ar wahân i gofnodi penderfyniad y Cyngor a'i rannu gyda'r holl gynghorwyr yn y ffordd arferol;

neu

(c) pan fo'r Cyngor yn derbyn bod y penderfyniad neu'r cynnig yn groes i'r fframwaith polisi neu'n groes neu ddim yn cydymffurfio'n llawn â'r gyllideb ac nad yw'n addasu'r fframwaith presennol er mwyn ei gynnwys, bydd angen i'r Cabinet ailystyried y mater yn unol â chyngor naill ai'r Swyddog Monitro a / neu'r Prif Swyddog Ariannol.